Dyma babell y cyfarfod

Caneuon Ffydd: Rhif 338

Dyma babell y cyfarfod,
    dyma gymod yn y gwaed,
dyma noddfa i lofruddion,
    dyma i gleifion feddyg rhad;
dyma fan yn ymyl Duwdod
    i bechadur wneud ei nyth,
a chyfiawnder pur y nefoedd
    yn siriol wenu arno byth.

Pechadur aflan yw fy enw,
    o ba rai y penna'n fyw;
rhyfeddaf fyth, fe drefnwyd pabell
    im gael yn dawel gwrdd â Duw:
yno mae, yn llond ei gyfraith,
    i'r troseddwyr yn rhoi gwledd;
Duw a dyn yn gweiddi, "Digon"
    yn yr Iesu, 'r aberth hedd.

Myfi anturiaf yno'n eon,
    teyrnwialen aur sydd yn ei law
wedi ei hestyn at bechadur,
    llwyr dderbynnir pawb a ddaw;
af ymlaen dan weiddi, "Pechais",
    af a syrthiaf wrth ei draed,
am faddeuant, am fy ngolchi,
    am fy nghannu yn ei waed.

ANN GRIFFITHS, 1776–1805

MYFYRDOD

Am y berthynas wefreiddiol o agos honno oedd gan Ann Griffiths â'i Harglwydd y mae llawer o'i hemynau'n sôn, ac nid yw hwn yn eithriad. Perthynas mor eithriadol o ddwys yn wir, fel bod awgrym fod Thomas Charles yn ofni ei fod mor ddwys nes iddo amau a fedrai hi ei ddal. Yn achos Ann fe lwyddwyd gyda disgleirdeb i gyfeirio'r profiad hwn i mewn i emynau o fawl. A hithau'n ferch alluog eithriadol, fe ddarllenai bopeth oedd ar gael iddi, gan gymryd cymhelliad y Salm gyntaf i 'fyfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos' a meistroli ei Beibl yn drwyadl, gan adael i'r Gair a brofai hi yno ei meistroli hithau'n drwyadl hefyd.

Fel yn emyn 192 – 'Mae'r Duw anfeidrol mewn trugaredd',

ceir yma hefyd gyfeirio at ddelwedd pabell y cyfarfod. Dyma'r babell a osododd Moses y tu allan i wersyll yr Hebreaid ac y byddai'n mynd yno ar ei ben ei hun i geisio cyngor ac arweiniad Duw, a Duw yn disgyn i fod gydag ef yno. Pan fyddai Moses yn mynd i mewn i'r babell, byddai colofn o gwmwl yn disgyn ac yn aros wrth y drws, a byddai'r Arglwydd yn siarad â Moses' (Ex. 33:9). Yr agosrwydd hwn a brofai Moses pan siaradai Duw ag ef wyneb yn wyneb, neu 'fel y bydd rhywun yn siarad â'i gyfaill' (adn.11), y mae Ann hefyd yn ei fwynhau, a dyna pam bod y ddelwedd hon mor bwysig ganddi.

Fe wêl Ann holl ffrydiau'r Hen Destament yn cyfeirio'u hunain at Iesu Grist a holl ffrydiau'r Testament Newydd yn llifo ohono Ef. Ef bellach yw ein 'pabell y cyfarfod' oherwydd ei 'gymod yn y gwaed', ac mae'r un berthynas ag a brofai Moses â Duw yn agored inni i gyd. Dyma destun rhyfeddod i Ann: 'rhyfeddaf fyth, fe drefnwyd pabell'. Ef hefyd yw'r 'noddfa i lofruddion' sydd yn ein cyfeirio at y ddarpariaeth arbennig honno a wnaeth Duw ar gyfer ei bobl wrth feddiannu gwlad Canaan, sef penodi chwech o drefi'r wlad yn ddinasoedd noddfa (Num. 35:6), er mwyn i lofruddion gael dianc a llochesu ynddyn nhw. Gallwn bellach lochesu yng Nghrist er gwaethaf ein troseddau.

Ceir cyfeiriad at y 'teyrnwialen aur' yn y trydydd pennill, a'r pennill olaf yn ein detholiad ni yma, sydd yn mynd â ni at hanes y Frenhines Esther, ac at ei dewrder hi yn mentro llefaru wrth y brenin er gwaethaf y gosb a gariai hynny pe byddai'r brenin wedi dewis peidio ag estyn ei deyrnwialen aur (Esther 5:2). Dangos gras y brenin oedd y deyrnwialen, ac mae hon bellach yn llaw Duw ac yn cael ei 'hestyn at bechadur' oherwydd aberth Crist. Teipoleg yw'r enw ar y math yma o gyfeiriadaeth, ac mae Ann yn gweld y teipiau neu'r cysgodion i Iesu yn amlwg iawn yn yr Hen Destament ac yn eu defnyddio'n llawn yn ei gwaith.

GWEDDI

O Dad, diolchwn iti fod dy Air yn ein cyfeirio at Grist, oherwydd mai ef yw'r 'Gair a wnaethpwyd yn gnawd'. Diolchwn iti am agosrwydd y berthynas y gallwn ni i gyd ei mwynhau â thi dy hun 'yn yr Iesu,'r aberth hedd'. Amen.